

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Cyfarfodydd Herio Perfformiad
PWRPAS YR ADRODDIAD	I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad mewnol yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.
2. Yn dilyn galwadau gan y Fforwm Craffu ac aelodau'r pwyllgorau craffu mae bwriad i beilota gwadd dau gynrychiolydd o bob pwyllgor craffu i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad mewnol un adran. Bydd disgwyl i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl yn ffurfiol i'w pwyllgor neu'r cyfarfod anffurfiol ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.
3. Y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma yw Amgylchedd a Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC). Dyma'r dyddiadau sydd wedi eu pennu gan yr adrannau ar gyfer y cyfarfodydd herio perfformiad nesaf.

Meysydd Gwaith	Pryd
Amgylchedd	5 Hydref 2026
Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	12 Hydref 2026

4. Argymhelliad y Fforwm Craffu yw y dylai cynrychiolwyr y pwyllgor fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Amgylchedd.
5. Bydd disgwyl i'r aelodau fynychu'r cyfarfod, gwrando ar y drafodaeth ac adrodd yn ôl i aelodau'r pwyllgor (gweler atodiad 1) unai yn y cyfarfod ffurfiol neu anffurfiol.
6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Amgylchedd.**